



Ein cyf/Our ref: DC/JMHSC/02869/25

Dyfed Edwards – Cadeirydd
Carol Shillabeer – Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

10 Rhagfyr 2025

Annwyl Dyfed a Carol,

Mae'r llythyr hwn yn dilyn y Cyfarfod Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhaliwyd ag aelodau o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 20 Tachwedd 2025. Diolch i chi ac i'ch tîm am fod yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith y mae'r bwrdd iechyd yn ei gyflawni ar ran y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhan bwysig o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddwyn sefydliadau'r GIG i gyfrif am gyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau – gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflawni gweithredol yn ystod y flwyddyn, sefydlogrwydd ariannol, ansawdd a diogelwch a rheoli risgiau allweddol.

Diolch i chi am y pecyn tystiolaeth a ddarparwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pecyn hwnnw yn rhan bwysig o gofnod y cyfarfod. Mae rhagor o wybodaeth am y cyfarfod i'w chael yn:

- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – 20 Tachwedd 2025, 4:30pm](#)
- [Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – 20 Tachwedd 2025, 4:30pm \(Saesneg yn unig\)](#)

Mae'r llythyr hwn yn nodi fy myfyrdodau yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Byddwn yn parhau i adolygu'r themâu hyn yn ein cyfarfodydd adolygu rheolaidd, fel rhan o drefniadau uwchgyfeirio'r bwrdd iechyd i lefel 5 (mesurau arbennig).

Hoffwn gydnabod pa mor agored oedd y Bwrdd a'ch bod chi a'ch tîm gweithredol wedi dangos eich bod yn barod i gymryd rhan mewn modd adeiladol drwy gydol y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyfarfod. Roedd y drafodaeth yn eang ei chwmpas ac yn onest, gan ddangos y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd ers iddo gael ei uwchgyfeirio i fesurau arbennig yn 2023 a'r heriau sylweddol sy'n parhau. Rwy'n ddiolchgar am barodrwydd y Bwrdd i fynd i'r afael â materion a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd ac am fod yn dryloyw wrth drafod materion perfformiad, llywodraethiant, cyllid a chynllunio at y dyfodol.

Gwnaethom drafod ein gohebiaeth ddiweddar am gymorth ymyrraeth pellach ar gyfer y bwrdd iechyd a chadarnhawyd yr hyn a gytunwyd gennym, fod uwch-dîm i gael ei benodi i weithio ochr yn ochr â'ch tîm gweithredol.

Yn eich sylwadau agoriadol, pwysleisiwyd gennych bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a'r uchelgais gyffredin i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl y Gogledd. Gwnaethoch gydnabod y llwyddiannau a gyflawnwyd hyd yma, yn enwedig o safbwynt ailadeiladu ymddiriedaeth a gwella'r ymgysylltu â chleifion, staff a chymunedau lleol. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod gwaith sylweddol yn parhau ar gyfer mynd i'r afael â heriau parhaus o ran mynediad at wasanaethau, perfformiad a chynaliadwyedd ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod, o'r holl feysydd i'w gwella, mai mynediad amserol at wasanaethau yw'r maes y mae angen mynd i'r afael ag ef yn fwyaf diymdroi. Er bod boddhad cleifion yn parhau i fod yn uchel ar ôl iddynt gael mynediad at ofal, cydnabu'r Bwrdd fod oedi ac anawsterau o ran cael mynediad cychwynnol yn bryder allweddol i ddinasyddion. Gwnaethoch amlinellu amrywiaeth o fentrau – gan gynnwys clinigau ar y penwythnos, triniaethau a gynhelir yn rheolaidd wedi'u targedu, a'r cynnydd yn y defnydd o ddarpariaeth wedi'i allanoli a'i mewnoli – i fynd i'r afael â'r ôl-groniadau.

Nodwyd bod materion o ran uniondeb y data, yn enwedig y data sy'n ymwneud â rhestrau aros, yn rhwystr i oruchwyliaeth effeithiol. Mae'n hanfodol bod y Bwrdd yn cadw gafael gadarn ar ddata er mwyn deall perfformiad, adeiladu hyder ac i reoli gwelliannau yn effeithiol. Mynegais fy mhryderon nad yw'n ymddangos bod y cyflwyniad data diweddar yn adlewyrchu nifer gwirioneddol y cleifion sy'n aros, er bod yr adroddiadau wythnosol yn gywir. Roedd hyn yn ymwneud â'r ffaith bod segment o'r rhestr aros yn cael ei reoli ar wahân am resymau ymarferol, gan arwain at anghysondebau.

Gwnaethoch gydnabod bodolaeth cofnodion cleifion dyblyg, yn enwedig ar gyfer apwyntiadau dilynol, oherwydd bod tair gwahanol system TG wedi bod ar waith yn y gorffennol. Er bod y systemau hyn wedi'u cyfuno yn haf 2023, ni chawsant eu hintegreiddio'n llawn, gan arwain at faterion parhaus o ran ansawdd y data. Rydych wedi comisiynu adolygiad i ymchwilio i uniondeb eich data, ac i nodi gwallau a chanfod gwersi ar gyfer gwella yn y dyfodol. Rydych hefyd yn mynd ati i ddilysu data ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cael eu cysoni'n briodol ac yn cael eu hadlewyrchu yn y data ar restrau aros. Ers y cyfarfod hwn, rydym wedi cymryd camau i unioni'r safbwynt hwn, ac rwyf wedi comisiynu adolygiad cynhwysfawr o ansawdd y data ar yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT) ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r trefniadau ar gyfer eu llywodraethu.

Rhaid i'r Bwrdd ddangos goruchwyliaeth gadarnach o faterion gweithredol. Mae'r perfformiad sy'n cael ei adrodd gan y bwrdd iechyd yn erbyn y metrigau perfformiad

sy'n gysylltiedig â chanser, gofal a gynlluniwyd a gofal brys a gofal mewn argyfwng y gwannaf yng Nghymru yn gyson. Ar hyn o bryd, mae dros 5,000 o gleifion yn aros mwy na dwy flynedd am driniaeth, gyda rhai yn aros mwy na thair blynedd. Mae hon yn sefyllfa annerbyniol ar gyfer y Bwrdd, ac rwy'n disgwyl ichi gymryd camau brys i reoli perfformiad gweithredol, a'i wella, gan gynnwys rheoli rhestrau aros, prosesau atgyfeirio a systemau trefnu apwyntiadau.

Mae'r perfformiad o ran canser wedi bod yn gryf yn y gorffennol. Fodd bynnag, erbyn hyn, y Bwrdd sydd â'r perfformiad gwannaf yng Nghymru, a dyma fu'r sefyllfa ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn a aeth heibio. Gwnaethoch gadarnhau nad yw'r bwrdd iechyd yn cyflawni yn erbyn ei drywydd gwella perfformiad ei hun, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau a heriau wrth reoli contractau allanol. Gwnaethoch dynnu sylw at ragor o afael a rheolaeth yn y meysydd hyn gan gynnwys allanoli a mewnnoli darpariaeth, er mwyn cynyddu capasiti llawfeddygol a lleihau ôlgroniadau yn ogystal â'r uwch-glinigau a gyflwynwyd ar y penwythnos a fydd yn darparu dros 2,000 yn rhagor o apwyntiadau bob wythnos tan ddiwedd mis Mawrth 2026.

Mae perfformiad eich system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn golygu bod cannoedd o gleifion yn cael eu gadael i lawr bob wythnos. Mae cleifion yn treulio cyfnodau annerbyniol o amser yn aros mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys ac yn ystafelloedd aros yr adrannau hynny. Gwnaethoch ddisgrifio'r cydweithrediad parhaus ag awdurdodau lleol a dulliau sydd wedi'u mabwysiadu ar draws y system gyfan i leihau oedi wrth drosglwyddo cleifion ambiwlans a gwella gwasanaethau brysbennu a gofal argyfwng yr un diwrnod. Rydych yn cydnabod effaith tagfeydd o ran llif cleifion drwy'r system ac oedi wrth ryddhau cleifion ar ddiogelwch cleifion a morâl staff. Amlinellwyd gennych hefyd gamau uniongyrchol i weithredu prosesau newydd ar gyfer rhyddhau cleifion a threfniadau olrhain data byw, i leihau oedi mewn llwybrau gofal dros yr wythnosau nesaf.

Trafodwyd y gwelliannau sydd wedi'u gweld yn dilyn gweithredu eich system rheoli ansawdd, gan gynnwys cyfraddau cau cwynion gwell a pharhaus, perthynas well â Chwrner EF, ymchwiliadau gwell a dull newydd o fynd ati i gyflawni gwelliant parhaus a dysgu ar gyfer digwyddiadau. Rhaid i'r Bwrdd gynnal ei oruchwyliaeth yn y meysydd hyn yn ogystal ag ar draws pob gwasanaeth. Mae mwy i wella ansawdd na systemau a phrosesau yn unig, er bod y rhain yn agweddau pwysig hefyd a drwy eu gweithredu a dysgu ohonynt y mae sicrhau gwelliant parhaus.

Mae ymrwymiad y Bwrdd i ailgynllunio gwasanaethau a chynllunio at y dyfodol yn amlwg, gyda phwyslais ar fodelau gofal cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar y claf, yn y gymuned. Rydym yn cefnogi'r ymgysylltu parhaus â chlinigwyr a'r cyhoedd, gweithredu'r mentrau digidol fel cofnodion iechyd electronig, a chydunio'r newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys agor canolfan orthopedig Llandudno ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed gan y Bwrdd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf o ran lleihau'r diffyg ariannol a gwella llywodraethiant a rheolaeth ariannol. Roedd cyflwyno cynllun ariannol cytbwys yn garreg filltir bwysig i'r Bwrdd ac rydym yn disgwyl ichi gyflawni'r cynllun hwnnw. Nodais, yn ôl eich rhagolygon chi, y bydd y

sefyllfa ariannol gytbwys yn parhau. Fodd bynnag, mae'r diffyg hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn a'r ffaith bod angen cyflwyno camau lliniaru pellach yn y flwyddyn ariannol bresennol yn parhau i fod yn destun pryder. Cytunwyd y byddech yn nodi'r camau manwl i liniaru'r risgiau hynny a chyflawni eich rhagolygon yn eich ffurflen fonitro ar gyfer mis 8. Rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd weithredu'r camau lliniaru ac adfer angenrheidiol, ail-alinio cyllidebau y dyfodol yn unol â'ch awgrym chi ar gyfer sicrhau rhagor o dryloywder a chryfhau camau rheoli costau ar unwaith.


Aed i'r afael yn y cyfarfod â materion arweinyddiaeth, diwylliant a llais clinigol. Croesawyd ymdrechion y Bwrdd i sefydlu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau newydd, cefnogi arweinyddiaeth leol a meithrin amgylchedd lle y mae staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i arloesi ac i godi pryderon. Rwy'n gwybod eich bod yn cydnabod bod y materion hyn yn sylfaenol i wella perfformiad presennol ac i sefydlu gwasanaethau gwych ar gyfer y dyfodol. Rwy'n disgwyl gweld cynnydd parhaus yn y meysydd hyn, gydag adolygiad rheolaidd yn eich cyfarfodydd o'r Bwrdd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi am eich llythyr yn dilyn y cyfarfod, yn nodi ymateb y Bwrdd i'r pwysau gofal brys ac argyfwng yn y system. Byddwn yn dilyn y rhain yn ein cyfarfodydd adolygu rheolaidd.

I grynhoi, roedd hwn yn gyfarfod adeiladol. Rwy'n awyddus iawn i gydnabod bod y Bwrdd yn gwneud cynnydd mewn rhai meysydd a bod yn rhaid i'r pwyslais fod ar gyflawni gweithredol ac nid ar newid gwasanaethau – ni all y model gofal a'r arosiadau hir ar draws y system barhau.

Canolbwyntiodd y cyfarfod hwn, yn briodol felly, ar y meysydd hynny sydd angen eu gwella. Meysydd yw'r rhain lle rwy'n disgwyl i'r Bwrdd wella'r oruchwyliaeth a'r arweinyddiaeth – mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ganddynt well gafael a rheolaeth arnynt, o safbwynt gweithredol ac yn ariannol.

Yn gywir



Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care